# LC1508

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau Tocio Cynffonnau Cwn Gwaith (Cymru) 2007

Mae’r Rheoliadau hyn yn esemptio tocio cynffonnau cwn gwaith rhag y gwaharddiad a osodir gan adran 6 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae’r Rheoliadau hyn yn pennu’r mathau o gi y gellir ei esemptio ac yn darparu ar gyfer y dystiolaeth y dylid ei chyflwyno i gi gael ei ardystio fel ci gwaith a hefyd yn darparu ar gyfer ffurf y dystysgrif y dylai milfeddyg ei llenwi. Mae’r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer dynodi ci a gafodd ei gynffon wedi’i docio â microsglodyn yn unol â’r Rheoliadau.

## Rheol Sefydlog 11.7

Cafodd y Cynghorwyr Cyfreithiol y cyfle i graffu ar fersiwn gynharach o’r Rheoliadau drafft. O ganlyniad, ystyriwyd y pwyntiau adrodd posibl yn y Rheoliadau presennol ac nid oes unrhyw bwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Gan fod y pwerau galluogi a enwir yn y Rheoliadau yn dod i rym ar yr amser a bennir yng Ngorchymyn Deddf Lles Anifeiliaid 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007, bydd angen sicrhau bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud, a’u bod yn cael eu nodi felly, ar ôl y Gorchymyn Cychwyn, os nad yw cwestiynau mewn perthynas â phwerau yn mynd i godi, yn arbennig gan fod y Rheoliadau hyn yn rhoi amddiffyniad yn erbyn tramgwyddau a grëwyd gan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006.

Hysbyswyd y cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau am bwyntiau fformadu sy’n addas i’w cywiro

wrth eu cyhoeddi.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**20 Mawrth 2007**